## Y gwynt sy'n chwythu W.S. JONES I'r "Eila Man"

# Nid mater bach, ond motor beics

PAM? Mae'r Golygydd yn gofyn pam mod i'n mynd i Ynys Manaw, ac y mae'r wraig yn gofyn yr un cwestiwn yn union tua diwadd Mai bob blwyddyn ond ei bod hi'n ei osod o yn yr Hen Nodiant yn hytrach na'r Sol-ffa, ac yn gofyn "Be sy' ar dy ben di?"

O gofio mod i wedi treulio wythnos gyntaf Mehefin ar Fanaw er pan ydw i'n cofio bron, mae'n hen bryd i rywun fy myrddio i, decini.

I dendio beicia gwyllt, i ddrachtio llond ffroen o Gastrol R, ac i fyw moto beics am wythnos, tebyg i hyn'na ydi'r atab.

Er mi ddylid deud bod y syndris yn cyfrannu cryn dipyn at dynnu dyn i'r Eila Man; petha fel cerddad dwy filltir y Prom efo'r ên ar y frest yn rhythu ar filoedd ar filoedd o foto-beics o bob lliw a llun sy'n sefyll ar stand ar y palmentydd o flaen y tai, aros a siarad efo hwn a'r llall.

Bob hyn a hyn yn ystod y daith syllu rhaid fydd galw mewn amball i dy ar y 'ffrynt', ac o ddwad yn weddol gyson i'r rasus, reit hawdd ydi ffroeni lle mae Cymry'n aros – y cwpwl o Lyndyfrdwy sy'n aros drws nesa i Min y Don. Ia, Min y Don, er nad oes gan y landlord yr un siw na miw o Gymraeg.

* * *

DDENG mlynadd ar ugian yn ôl Hazel Bush oedd enw'r gwesty tu draw i'r Broadway. Dair blynadd i leni Coed Cnau oedd enw'r lle, a hwnnw wedi ei sgwennu mewn llythrennau breision llachar ar faner wen oedd yn hongian rhwng dwy ffenast llofft. Criw o Fôn gaech chi yn fan'ma, criw hwyliog, a pho hwyra'r dydd gora'r hwyl.

Welis daro ar amball Gymro oedd yn cystadlu yn y rasus wrth droi i mewn i'r Coed Cnau. Kenny Shepherd a Kevin Hughes, roeddan nhw yma'n amal, er roedd raid bod yn fachog i ddal Kevin am ei fod o'n sgit am ei wely.

Mae rasio moto beic yn waith calad, yn un sy'n tynnu peth wmbradd o nerth o'r corff ac o fin o'r meddwl. Mae gorffwys yn bwysig i ddyn sy'n gwibio fora drannoeth dros fryn a phant ar y cwrs perycla yn y byd, a hynny ar gyflymder sydd ymhell dros gan milltir yr awr.

Petha fel'na sy'n fy nhynnu i i'r ynys yma, crwydro'n bwyllog yma ac acw a chael sgwrs efo hwn a'r llall – weithia mewn ty lojin a thro arall ar faine allan nos ola leuad.

Isda ar fainc uwchben y môr ro'n i pan drawis i ar hen fachgan oedd yn honni ei fod o'n bymthag a phedwar ugian oed a'i fod o'n medru hogi bwyall nes bydda hi'n ddigon miniog i hollti matsan ben goch gyfffredin heb ei thanio hi. Dyna ddeudodd o.

A mi ddeudodd ei fod o'n cofio 1907 a'r ras TT gynta un ar yr ynys pan enillodd Charlie Collier ar y Matchless, cap pig tu ôl ar ei ben a belt lledar am ei ganol, ac yn lle rhoi pen-glin allan fel bydd hogia hiddiw, rhoi ei goes allan yn ei hyd oedd arfar Collier wrth gymryd tro, a rhygnu'i droed ar hyd llawr run fath â hogia sundars.

Mae'n werth dwad i'r TT, petai i un dim ond i gael clywad straeon fel'na. O ia, un waith yn unig yn ystod ei oes y bu Taid hwn yn nhre Douglas, medda fo. Y peth cynta un welodd o oedd mangyl gwasgu dillad.

Roedd cael cip ar y rhyfeddod yma yn ffyl digon i'r Taid am un diwrnod, a mi redodd adra bob cam i Borth Erin i ddeud yr hanas wrth yr hen wraig, wrth Nain yr hogwr bwyall felly, te.

Mae'r sdesion drên yn Nouglas mor hen ffasiwn yr olwg ag oedd un Llangybi drigian mlynadd yn ôl yn ei phaent coch tywyll a'i pheiriant haearn bwrw sy'n rhoi bar o siocled i ni o'r drôr yn ei waelod ond i ni ollwng ein ceiniog i hollt sydd ar ei dop.

Mae'r paent coch yma yn f'atgoffa i o'r paent gaem ni gan sdât y Gwfryn erstalwm ar gyfar peintio landerydd a drysau'n tai.

* * *

DOES DIM yn fwy o hwyl na mynd ar y trên drydan i ben mynydd Snaefell. Mae trên drydan yn swnio'n grand, ond cyntefig a phlaen iawn ydi'r trên drydan yma. Mae'r ochrau i'w gweld yn symud yn ara oddi wrth y to, ac yn gwegian a gwichian wrth ein cludo ni ffwl pelt drwy Laxey i ben y mynydd.

Llynadd, a ninna hannar ffordd i lawr y mynydd, mi aeth yr hen drên bach yn ormod o lancas. Mi lwyddodd i ddwad yn glir oddi ar ei rheilia. Panic? Dipyn bach ar ran y teithwyr, ond dim ar ran y dreifar a'r giard. Ddaru nhw un dim ond ei chodi hi'n ôl i'w gwely efo clamp o bolyn hir.

Profiada fel'na sy'n fy nhynnu i i Ynys Manaw, mewn gair – "Pobol a'u petha".

Bob dydd Mawrth rhaid fydd cael mynd i dref Ramsey, i weld yr hen hen fotobeicia a'r rheini bob un yn sgleinio fel ceillia milgi.

Mae sioe Ramsey yn rhoi llawn cymaint o wefr i mi ag ydi gwylio'r rasio. Mae troi ymysg yr hen hen beiriannau yma yn dwad â llawar iawn o atgofion i'r canol oed.

Wir, erbyn meddwl, rydw i'n siwr braidd mai profiadau'r gorffennol sy'n cyfri na fedra i ddim peidio mynd i'r Rasus o flwyddyn i flwyddyn. Anghofia i fyth mo'r profiad o fynd i Ynys Manaw efo eroplên yn 1951, hyn cyn i'r cyfryngau ddechra galw eroplên yn awyren.

Byclin oedd perchennog y llestr brau yma oedd yn gobeithio ein cael ni, chwech o ddynion heffti, dros y dŵr i Ynys Manaw.

O Broom Hall ger Abererch roeddan ni'n cychwyn. Ia, cychwyn! Doedd dim cychwyn yn 'i chroen hi. Er i'r peilot o Sais drio trwy deg a fel arall wnâi hi ddim cynnig tanio.

Roedd Meredydd Rowlands, y tad pob angan yn ein plith ni, yn selog am fachu rhaff wrth ei thrwyn hi a'i thynnu hi rownd y parc nes y darbwyllwyd o gan y peilot "ddat eroplêns âr not ffor towing".

* * *

MEWN DIFRI, petai Mered wedi mynnu tynnu'r Jipsan Moth a honno wedi tanio, mae'n debyg mai hongian wrthi hi gerfydd rhaff a char fyddai tynged y cradur yr holl ffordd i Fanaw. Ta waeth, tanio fuo raid iddi a hynny'n groes i'w hewyllys efo clec na chlywyd ei chystal ym Methesda na Charrag Llam.

Ac i mewn â ni a'r injan yn tisian, yn tagu ac yn poeri ei choluddion i'r borfa o dan ein traed ni.

Gwelw iawn ein gwedd oeddan ni yn dringo'r pedair sdepan i'n tynged ar y bore heulog hwnnw yn y Broom Hall. Fedrwn i ddim cynnig cael Master William o'm meddwl. Mab Broom Hall oedd Master William.

Mi gafodd ddamwain angheuol pan fachodd godra ei eroplên breifat o yn y gwrych led dau gae o'r lle y steddwn i mewn carpan o blên galico fregus a'i senna hi'n frau fel crim cracar, un nad oedd yn ffit i ffleio i dre' Pwllheli heb sôn am Douglas, Ynys Manaw.

Ta waeth am hynny, chadal ocsiwniar Porthmadog wrth drafod claddu John Elias o Fôn, mi gawsom gyrraedd pen ein siwrna fesul hwb, cam a pheswch. Roeddan ni'n byta brecwast yng Nghaffi Douglas cyn naw o'r gloch, dau wy gwylan ar dost.

Cymysgedd ryfedd fel'na sy'n cyfri am y dynfa sydd gan Eila Man arna i. Dipyn o hiraethu am ddoe, peth wmbradd o fwynhau hiddiw, ac cwns ne' ddwy o edrach ymlaen tuag at y dyfodol. Ras 1990 fydd y ras. Ma nhw'n deud i mi y bydd Joey Dunlop a Steve Hislop yno, a'r ddau ar yr un math o feic. Lwc owt.

1881.

**WALLIÆ CURIOSA.**

A CATALOGUE

OF AN INTERESTING AND VALUABLE

**COLLECTION OF BOOKS**

RELATING TO WALES,

INCLUDING:

*History, Antiquities, Heraldry, Topography, Legends, Poetry and Welsh Classics,*

TOGETHER WITH A

Large collection of Works in the various Departments of English Literature, &c.

ALL MARKED AT EXTRAORDINARY LOW PRICES FOR CASH.

ON SALE BY

**W. J. ROBERTS,**

**COWLYD HOUSE, LLANRWST.**

1 DR. MORGAN'S WELSH BIBLE. Sef yr Hen Destament a'r Newydd, 2 Tim iii. 14-16. Y cyfieithiad cyntaf i'r Gymraeg gan William Morgan, D.D., a argraphwyd yn Llundain yn y flwyddyn 1588.—Dolgellau R. Jones, 1821 4to calf. £3 3s.

2 LEWIS' HISTORY OF BRITAIN, from the first habitation thereof, to the death of Cadwaladr, last king of the Britons, * * in which are several pieces of Taliesin an ancient British Poet, with many antiquities never before published, by John Lewis, Esq., Barister at Law, to which is added the Breviary of Brytayne, written in Latin, by Humphrey Lloyd of Denbigh, lately Englished by Thomas Twine Gent, edited by Hugh Thomas. folio calf. London 1729. 20s.

*Dim gwobr am weld y fargen yn hysbyseb yr amryddawn Gwilym Cowlyd. Ond fe gymerai dri mis i weithiwr ar goron yr wythnos i fanteisio arni.*